

**Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Llangoed a Phenmon.  
A gynhaliwyd ar Nos Fercher Medi 10fed 2014  
am 7 - 0 o'r gloch.**

- 1. Croeso** - Agorwyd y Cyfarfod gan yr Is-Gadeirydd Cyng. E Jones, gan estyn croeso cynnes i bawb oedd yn bresennol.  
**Presennol** - Cynghorwyr Emlyn Jones (Is-Gadeirydd), Mary Ellis, Ruth Roberts, Delyth Jones, Wyn Hughes, Lewis Davies, Ann Roberts a Geraint Parry (Clerc).
- 2. Ymddiheuriadau:-**  
Cyng. Alan Owen, Dafydd Roberts, Gareth Moore, Alwyn Rowlands a Carwyn Jones.
- 3. Cofnodion**  
Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 9fed o Orffennaf, fel rhai cywir gan Cyng. W Hughes ac eiliwyd gan Cyng. R Roberts wrth newid 1 pwynt.
- 4. Materion yn Codi o'r Cofnodion**
  - 4.10 **Llwybr** a choed ger Tan Pentre' Mawr wedi ei dorri.
  - 4.11 **Ysgol Llangoed** - ymddiriedolaeth wedi ei sefydlu i helpu pobl ifanc gyda gwersi offerynnol. Cyng. L Davies i godi'r mater yn cyfarfod nesaf y llywodraethwyr.
  - 4.12 **Sgwâr Tawelfan** - Clawdd Tŷ Newydd wedi ei dorri ar feinciau nawr wedi ei gosod. Cyng. D Jones yn adrodd bod y plant wedi gwneud y bocsys blodau pren yn ystod y gwyliau Ysgol. Gofynnwyd hefyd a oes grant ar gael i bwrcasu offer a bylbiau blodau. Oherwydd bod y gwaith i adnewyddu'r sgwâr wedi ei ariannu trwy Cynllun Datblygu Gwledig, oedd Rheolwr rhanbarthol o'r cynulliad wedi ymweld ar safle mis Gorffennaf.
  - 4.13 **Llwybr concrit Tawelfan** - dim newyddion pellach.
  - 4.14 **Adeiladu Ward Cymunedau Seiriol** - cofnodion wedi ei rhannu. Cyfarfod nesaf yn Neuadd y Pentref Llanddona ar 30/09/14 am 5.30.
- 5. Datgan Diddordeb**
  - Cyng. D Jones ar drafodaeth Grŵp Cymunedol
  - Cyng. L Davies ar gais Coedfryn 35C318 a thrafodaeth Ysgol Gynradd
- 6. Sylwadau Ceisiadau Cynllunio**
  - 35C304C - Cais llawn ar gyfer dyluniad diwygiedig ar gyfer y math o dy ar blot 8 yn Bryn Paun, Llangoed - dim sylwad.
  - 35C58E - Cais llawn ar gyfer codi uned gwyliau wedi ei ganiatau yn flaenorol ao dan rif 35C58D yn Bryn Mawr, Penmon - dim sylwad.
  - 35C320 - Cais amlinellol ar gyfer codi annedd gyda rhai materion wedi ei gadw ôl, ynghyd a chreu mynedfa newydd i geir ar dir ger Pen Waen, Llangoed - materion llifogydd lleol a charthion yn yr ardal yma sy'n mynd i achosi problemau.
  - 35C305B - cais llawn ar gyfer codi modurdy dwbwl a stydi uwchben yn Tan Rallt, Llangoed - dim sylwad.
- 7. Adroddiad gan y Cynghorwyr Lleol**
  - 7.10 Wedi cael cwyn bod person yn sownd yn y drain ar Bont y Brenin. Clawdd nawr wedi ei dorri.
  - 7.11 Lampau stryd wedi ei drwsio.
  - 7.12 Garreg cwrw wrth y swyddfa post wedi ei drwsio.
  - 7.13 Bont y Rhyd wedi cael ei daro.
  - 7.14 Tyllau yn y lonydd lleol wedi ei drwsio.
  - 7.15 Cais cynllunio'r Rhyd wedi newid, nawr yn cynnwys 4 tŷ preifat a 2 dy fforddiadwy.
  - 7.16 Niferoedd o blant sydd yn ymuno ar Ysgol wedi codi i 97. Hefyd wedi cael cynnig cyntaf o'r adnoddau o Ysgol Llanddona.
  - 7.17 Mae angen torri'r gwrych tŷ cefn i "Tai Eryri" ym Mhont y Brenin.
  - 7.18 Fair haf Haulfre a Blaen y Coed wedi bod yn llwyddiannus.
  - 7.19 Angen cysylltu â Dwr Cymru ynglŷn â chyflwr lôn Glanllyn, sicr o waethygu yn ystod y gaeaf.
  - 7.20 Tai Fforddiadwy ger Bryn Paun - siomedig iawn bod y gwaith ddim wedi dechrau ar y safle.  
Cynhaliwyd trafodaeth ynglŷn â sefyllfa gyda'r Gweidiaid.
  - 7.21 Wedi derbyn cwyn fod bysiau i Ysgol Borth wedi côr lenwi.
  - 7.21 Gwaith ar giât Gwelfor mewn llaw.

7.22 Pennaeth newydd Gwasanaeth Oedolion y Cyngor Sir, yn edrych i wella cyfleusterau yn Blaen y Coed.

7.23 Cysgodfa Bws ger yr hen Ysgol wedi cracio, edrych yn beryglus.

### **8. Neuadd y Pentre'**

Trafodwyd rhodd tuag at y Neuadd. Penderfynwyd trafod ymhellach.

Pwyllgor yn trefnu noson "Rhostio Mochyn" ar ran Ysgol Langoed.

Sioe flodau 6/09/14 yn llwyddiannus

### **9. Prosiect Afon Lleiniog**

Dau gyfarfod wedi ei gynnal 5/08/14 a 9/09/14 - Ruth, Emlyn, Simon, Gareth (Menter Môn) ar Clerc.

- Contract Glastir – gwaith gan y ddau gontractwr bron wedi'i gwblhau. Clerc i gwblhau y cais am arian Glastir ar gyfer 2014/15.
- Mainc wedi ei dorri ger y Castell, hefyd angen gwaith ar y panel gwybodaeth.
- Canghennau wedi côr dyfu ger mynediad i'r llwybr yn beryglus. Cyng. W Hughes i drefnu cael ei dorri.
- Arwydd ger yr arfordir wedi disgyn. Cyng. L Davies i drafod y mater gyda'r Cyngor Sir.
- Aidie Moore yn reportio bod ffrom lys Himalyan yn lledaenu ar hyd yr afon.

### **10. Grŵp Cymunedol - Ffrindiau Llangoed**

- Cyng. D Jones yn rhannu gwybodaeth am ddigwyddiadau dros wyliau'r haf. Tua 67 o blant wedi cymryd rhan.
- Grŵp wedi bod yn llwyddiannus gyda enill grant "Community Chest" o £1,100 at offerion chwarae.
- Trafodwyd cais i gael gosod slab concrit yn y maes chwarae. Grŵp i benderfynu lleoliad.
- Derbyniwyd cais er mwyn cynnal a chadw Sgwâr Tawelfan.
- Angen gwneud cais am Arian Loteri i bwrcasu adnoddau ychwanegol. Pawb yn gytûn.
- Digwyddiadau yn y dyfodol – Noson Bingo, Fair Nadolig.

### **11. Cyfrifon**

**Taliadau**, penderfynwyd talu:-

- ROSPA Arolwg Maes Chwarae Plant - £81.60
- Zurich Yswiriant 2014/15 - £1,160.01
- Countryside Management, gwaith Glastir - £932.00
- Aelodaeth SLCC - £64.00

#### **Incwm**

- Ail daliad praesept - £3,143.33
- Hawlfraint Taw - £441.75
- Wayleave - £163.48
- Taith Beics - £207.00

### **12. Gohebiaeth**

Llythyr - Ffrindiau Llangoed, diolch am y rhodd.

Llythyr – Cyngor Sir, angen torri coed ar lôn Glanllyn

Llythyr – Menter Môn, datblygu Ynni Cymunedol 18/09/14

e-bost – Tai Fforddiadwy, M Sillitoe.

e-bost – Emlyn Jones

Llythyr – Hacker Young, pecyn blynyddol 2013/14

Apel – Shelter Cymru

Llythyr – Un Llais, AGM 4/10/14

Llythyr – pecyn Yswiriant 2014/15

Llythyr – ROSPA, adroddiad maes chwarae

Llythyr - Swyddfa Archwilio Cymru, ad-daliad ar gael at y ffi o £30.

### **13. UFA:**

13.10 Coed ar lôn Glanllyn - Clerc wedi cael cwyn gan Adran Wast y Cyngor Sir yn glŷn â cangheaanu'r coed sy'n nawr yn tyfu dros y ffordd, gwneud hi yn anodd mynd ar lorri gwastraff yno. Llythyr wedi ei anfon at ddeiliaid tai ar y ffordd, wrth egluro y bydd y gwasanaeth yn stopio oni bai bod camau adferol yn cael eu cymryd erbyn Hydref 3ydd. Penderfynwyd cael pris am y gwaith ac ymgynghori gyda Menter Môn.

13.11 Tai Fforddiadwy - cawsom esboniad am yr oedi i'r prosiect gan M Sillitoe, cymdeithas tai yn gorfod ail-dendro am y gwaith, Bwrdd Rheoli nawr wedi cymeradwyo'r cynllun. Maent yn debygol ni fydd y

datblygiad yn dechrau yn y flwyddyn ariannol yma. Bwriad yw archebu'r gwaith i gael symud y gwifrau ar transformer.

13.12 Cwyn clawdd Dalar Las – angen ei dorri.

13.13 Penderfynwyd aelodaeth SLCC am 2014/15, pawb yn gytûn.

13.14 Clerc yn adrodd bod angen gwaith cynnal a chadw ar y gwaith coed o gylch y tap dwr yn Fynwent y Plwyf, ar fainc ym maes chwarae'r plant.

13.15 Swydd Gwag - Clerc yn egluro'r sefyllfa, bod angen hysbysebu'r swydd a bydd swyddog o'r Cyngor Sir yn dderbynnu. Os na fydd etholiad, gall y Cyngor Cymuned gyfethol.

13.16 Trafodwyd adrodd maes Chwarae Plant. Hefyd Cyng. D Jones yn adrodd bod yna graffiti ar y sleid.

13.17 Nid ydi'r bin glas yn y maes chwarae yn cael ei wagio. Cyng. L Davies i drafod gyda'r Cyngor Sir.

13.18 Glanrafon – angen torri waun Bay View, clirio ffos Didfa, a torri clawdd ger y Ciosg

13.19 Cais arwyddion "Baw Ci" gan PSCO Natalie Tookey. Cytunwyd £100 tuag at y gost.

#### **14. Dyddiad cyfarfod nesaf:**

Nid oedd mwy o fusnes i'w drafod. Diolchodd yr Is-Gadeirydd i bawb am eu cyfraniad.

Daeth y cyfarfod i derfyn am 9.00 o'r gloch.

Cyfarfod nesaf 15/10/14

Llofnod y Cadeirydd

Dyddiad